# Papur y Bwrdd

29 Medi 2016

| | |
|---|---|
| **Teitl y Papur** | **Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon** |
| **Cyfeirnod y Papur:** | **Papur B B 55.16** |
| Paratowyd y Papur gan: | **Clive Thomas a Kevin Ingram** |
| **Cyflwynir y Papur gan:** | |

| | |
|---|---|
| **Diben y Papur:** | **Nodi'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon sydd wedi'u harwyddo ar gyfer 2015/16 a chytuno ar y cynnig i gynnwys y Bwrdd yn y gwaith llywodraethu ar gyfer ymarfer 2016/17** |
| **Argymhelliad:** | Gofynnir i'r Bwrdd:<br><br>• Nodi'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon sydd wedi'u harwyddo ar gyfer 2015/16 ac a gyflwynwyd i Archwilydd Cyffredinol Cymru<br>• Cytuno ar y cynnig i gynnwys y Bwrdd yn y gwaith o ddatblygu Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2016/17 |

| | |
|---|---|
| **Effaith:** | Sut mae'r cynigion yn y papur hwn yn helpu Cyfoeth Naturiol Cymru i gyflawni ffyrdd o weithio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol o ran:<br>• **Ystyried y tymor hir –**<br>• **Defnyddio dull integredig –**<br>• **Cynnwys amrywiaeth o'r boblogaeth –**<br>• **Gweithio mewn ffordd gydweithredol –**<br>• **Atal problemau rhag digwydd –** |

## Y Mater

1. Darperir Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2015/16 er sylw'r Bwrdd. Hefyd, gofynnir i'r Bwrdd gytuno ar y cynnig i'r Bwrdd llawn a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg fod yn rhan o'r gwaith o ddatblygu adroddiad cyfatebol ar gyfer 2016/17.

## Cefndir

2. Gwnaeth y Swyddog Cyfrifyddu arwyddo Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2015/16 ar 23 Awst 2016 a chyflwynwyd y rhain i Archwilydd Cyffredinol Cymru y diwrnod hwnnw. Nid yw Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi cyflwyno ei adroddiad archwilio hyd yma gan fod un mater parhaus sydd angen gwaith ychwanegol.

3. Fel corff cyhoeddus, mae'n ofynnol i Gyfoeth Naturiol Cymru baratoi Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon yn unol ag egwyddorion cyfrifyddu'r sector cyhoeddus a'n Fframwaith Llywodraethu gyda Llywodraeth Cymru. Y Swyddog Cyfrifyddu (Prif Weithredwr) sy'n gyfrifol am lofnodi'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon, sy'n cael eu cyflwyno i Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi hynny.

4. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg wedi arwain y ffordd o ran rhoi sicrwydd i'r Bwrdd a'r Swyddog Cyfrifyddu hefyd ynglŷn â chyflawnrwydd yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon hyd at flwyddyn ariannol 2015/16.

5. Cynigir bod y Bwrdd llawn yn cael cyfleoedd ychwanegol i gyfrannu at yr asesiad ar gyfer y blynyddoedd sydd ar ddod.

## Asesiad

6. Y cynnig ar gyfer blwyddyn ariannol 2016/17 ymlaen yw:

- Bydd amserlen a cherrig milltir yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon yn cael eu rhannu gyda'r Bwrdd llawn bob blwyddyn.
- Ar adeg y darlleniad cyntaf o'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon (Mehefin) gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, bydd y drafft llawn yn cael ei rannu â'r Bwrdd ac yn cynnwys nodyn y dylai sylwadau/pryderon gael eu bwydo'n uniongyrchol i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg neu drwy ei gadeirydd mewn da bryd ar gyfer cyfarfod y pwyllgor hwnnw ym mis Mehefin.
- Bydd yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon sydd bron wedi'u cwblhau yn cael eu cyflwyno yn ystod cyfarfod y Bwrdd ym mis Gorffennaf, ynghyd â chais bod y sicrwydd terfynol ar gyfer y Swyddog Cyfrifyddu yn cael ei ddirprwyo i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ym mis Gorffennaf.

## Argymhellion

7. Gofynnir i'r bwrdd:

- Nodi'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon sydd wedi'u harwyddo ar gyfer 2015/16 ac a gyflwynwyd i Archwilydd Cyffredinol Cymru.
- Cytuno ar y cynnig i gynnwys y Bwrdd yn y gwaith o ddatblygu Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2015/16.

## Risgiau Allweddol

8. Bydd unrhyw risgiau allweddol neu faterion a nodir yn yr archwiliad o Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2015/16 yn cael eu hadolygu'n fanwl gyda'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ac fe gaiff gytundeb ynglŷn ag unrhyw gynllun gweithredu dilynol.

## Goblygiadau Ariannol

9. Mae'r papur hwn yn ymwneud â pherfformiad blynyddol a sefyllfa ariannol Cyfoeth Naturiol Cymru. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol ychwanegol a fydd yn codi ar wahân i'r amser a dreuliwyd wrth baratoi'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon.

## Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

10. Amherthnasol.

### Mynegai o'r Atodiad

Atodiad A – Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2015/16